Hunanasesiad Safonau Rheoleiddio 2024/25

Diben rheoleiddio yw sicrhau bod gennym arweinyddiaeth a phenderfyniadau effeithiol a'n bod yn cynnig cartrefi a gwasanaethau o safon mewn ffordd sy'n ddichonadwy yn ariannol. Mae ein Panel a Bwrdd Gweithredu Tenantiaid wedi ystyried ein perfformiad yn unol â safonau rheoleiddio a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'r adroddiad hwn yn esbonio i ba raddau rydym yn cyflawni yn erbyn pob un o'r safonau. Rydym yn ymrwymedig i wella y ffordd rydym yn gweithio'n barhaol a darperir ein cynllun gwella ar gyfer y flwyddyn i ddod ar ddiwedd yr adroddiad.

Mae rhagor o wybodaeth am y Safonau Rheoleiddio ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymdeithasau-tai-sydd-wediu-cofrestru-yng-nghymru-fframwaith-rheoleiddiol

Diffiniadau Dyfarniadau Hunanasesiad

Mae'r hunanasesiad wedi'i alinio â'r dyfarniadau a amlinellwyd yn y Safonau Rheoleiddio, a ddiffiniwyd fel a ganlyn:

Yn cydymffurfio	Mae'r gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddio a bydd yn cael goruchwyliaeth reoleiddio rheolaidd.
Yn cydymffurfio	Mae'r gymdeithas y bodloni'r safonau rheoleiddio'n rhannol ac mae ganddi'r potensial i allu cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol gyda mwy o oruchwyliaeth reoleiddio.
Ddim yn cydymffurfio	Mae'r gymdeithas y bodloni'r safonau rheoleiddio'n rhannol ac mae annhebygol o allu cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol heb ymyriad rheoleiddiol.
Ddim yn cydymffurfio	Nid yw'r gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddio yn rhannol neu o gwbl, ac mae angen i'r rheoleiddiwr gymryd camau statudol.

Crynodeb o Ganlyniad yr Hunanasesiad

Mae canlyniad ein hunanasesiad wedi'i grynhoi isod yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad hwn a thystiolaeth ategol a rannwyd gyda'r Rheoleiddiwr.

Safon Reoleiddio	Asesiad
SRh1: Arweinyddiaeth a Llywodraethu Effeithiol	Yn cydymffurfio
SRh2: Trefniadau Rheoli Risg a Sicrwydd	Yn cydymffurfio
SRh3: Gwasanaethau o Safon	Yn cydymffurfio
SRh4: Tenantiaid wedi'u Grymuso a Dylanwad ar Benderfyniadau	Yn cydymffurfio
SRh5: Rhentiau a Thaliadau Gwasanaeth	Yn cydymffurfio
SRh6: Gwerth am Arian	Yn cydymffurfio
SRh7: Cynllunio Ariannol	Yn cydymffurfio
SRh8: Rheoli Asedau a Rhwymedigaeth	Yn cydymffurfio
SRh9: Llety o Safon	Yn cydymffurfio

SRh1 - YN MEDDU AR ARWEINYDDIAETH A LLYWODRAETHU STRATEGOL EFFEITHIOL SY'N EI GWNEUD HI'N BOSIB CYFLAWNI DIBEN AC AMCANION.

- Yn meddu ar strategaeth sy'n adlewyrchu ei gweledigaeth, ei diwylliant a'i gwerthoedd ac yn amlinellu sut y bydd y gymdeithas yn cyflawni ei diben craidd fel landlord cymdeithasol.
- Mae'n cydymffurfio â'i dogfennau llywodraethu ei hun ac yn bodloni gofynion Côd Llywodraethu priodol.
- Mae'n amlinellu ac yn cyflawni ymrwymiadau yn seiliedig ar dystiolaeth ar draws holl feysydd ei busnes mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Mae ganddi Fwrdd amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau mae'r RSL yn gweithio ynddynt a chyda nhw, ac mae ganddi'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn bod yn effeithiol.
- Mae'n gwneud penderfyniadau rhesymegol sy'n seiliedig ar wybodaeth glir ac o safon sy'n cynnwys asesu risg a, lle bo'n briodol, barn tenantiaid.
- Mae'n galluogi ac yn cefnogi tenantiaid i ddylanwadu ar benderfyniadau strategol.
- Mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, gofynion rheoleiddio a chanllawiau statudol ac yn cyfathrebu mewn ffordd brydlon â'r rheolwr.

Yn dilyn lansiad Fframwaith Strategol Adeiladu Dyfodol Disglair yn 2023, rydym wedi parhau i ddatblygu ein gweledigaeth fel sefydliad Cymunedol Cydfuddiannol i fod yn landlord gwych, â gwreiddiau yn ein cymunedau ac yn gysylltiedig â nhw. Ein gweithgareddau craidd yw cynnig cartrefi diogel, cynnes a fforddiadwy a gwasanaethau cefnogi, a chynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy i ddiwallu'r angen am gartrefi gyda chefnogaeth ein partneriaid allanol. Yn 2024, lansion ni dair strategaeth allweddol - Cartrefi, Cymunedau a Gwasanaethau Tenantiaid - i amlinellu sut y byddwn yn cyflawni ein hamcanion fel landlord cymdeithasol. Mae hyn wedi'i gefnogi gan ddwy strategaeth gefnogi, Cyllid, sy'n pennu ein rheolau euraidd i sicrhau y gallwn gyflawni ein hamcanion mewn ffordd ddichonadwy, a Phobl sy'n canolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth, creu diwylliant cydweithredol, cefnogi iechyd a lles cydweithwyr, darparu swyddi ystyrlon sy'n rhoi boddhad a buddsoddi mewn sgiliau'r gweithlu i feithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol a chynhyrchiol lle mae pawb yn teimlo eu bod nhw'n cael eu parchu a'u grymuso i gyfrannu eu gorau drwy adlewyrchu ein gwerthoedd craidd.

Mae ein holl strategaethau'n seiliedig ar ein gwerthoedd: caredigrwydd, dibynadwyedd, blaengar, a chynhwysol. Mae'r Bwrdd yn cynnal dau ddigwyddiad strategol y flwyddyn yn ystod mis Ebrill a mis Hydref i sicrhau bod pawb yn cyd-fynd â'r weledigaeth a'r amcanion. Yn ogystal, mae ein Tîm Cyfathrebu Mewnol wedi bod yn gweithio gyda thenantiaid i wella safon cyfathrebu a sicrhau y gall tenant ddefnyddio'r wybodaeth ar ein gwefan yn hwylus. Maent hefyd yn gweithio gyda'r Panel Gweithredu Tenantiaid a'r Tîm Cynnwys y Cwsmer i ddatblygu a hyrwyddo ein brand cynnwys tenantiaid.

Yn dilyn adolygiad annibynnol o'n trefniadau Llywodraethu yn 2024, rydym wedi bod yn gweithio i gwblhau cynllun gweithredu dwy flynedd o hyd ac mae'r rhan fwyaf o argymhellion eisoes wedi'u rhoi ar waith ac mae wyth argymhelliad i'w cyflwyno drwy gydol 2025. Rydym yn parhau i fabwysiadu Côd Llywodraethu Tai Cymunedol Cymru ac yn flynyddol, mae ein Bwrdd yn cynnal hunanasesiad sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac sy'n llywio cynllun gweithredu cam wrth gam, i sicrhau ein bod ni'n parhau i fabwysiadu ffyrdd o weithio sy'n arfer gorau. Mae ein Rheolau Sefydlog yn rhoi manylion am y cyfrifoldebau ar gyfer y Bwrdd a Phwyllgorau, a chafodd y rhain eu hadolygu a'u cymeradwyo ym mis Tachwedd 2024. Mae'r Cynllun Awdurdod Dirprwyedig yn rhoi manylion am y lefelau o benderfyniadau mae ein Bwrdd wedi'u haseinio i Bwyllgorau, yr Arweinyddiaeth Weithredol ac Uwch-dimau Arweinyddiaeth. Cafodd hwn ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2025. Mae gennym drefniadau ar waith i fonitro a rheoli datganiadau o fuddiant, rheoli taliadau a budd-daliadau o dan Atodlen 1 o Ddeddf Tai, Twyll a Rhoi Anrhegion a Lletygarwch. Mae rheolaeth y trefniadau hyn wedi'i goruchwylio gan y Pwyllgor Sicrwydd. Yn ystod mis Ebrill, gwnaeth ymgynghoriaeth llywodraethu allanol hwyluso sesiwn

ddatblygu yn nigwyddiad strategol y Byrddau i sicrhau bod ein Bwrdd yn flaengar yn ei ymagwedd at gydbwyso triongli sicrwydd, ysgogi perfformiad strategol a galluogi trafodaethau sy'n canolbwyntio ar ein llwyddiant hirdymor parhaol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd wedi goruchwylio datblygiadau yn ein hymagwedd at Recriwtio a Gwasanaethau Pobl sydd wedi arwain at newidiadau yn ein harferion gweithio a'n polisïau i gyd-fynd â ffyrdd modern o weithio a chefnogi cydweithwyr wrth fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar gyfer i'r ffordd rydym yn gweithio gyda thenantiaid. Mae hyn wedi'i ategu gan hyfforddiant i'r holl gydweithwyr ar draws y sefydliad ac mae profion archwiliadau mewnol wedi'u cynllunio ar gyfer 2025 i lywio ein camau nesaf tuag at welliant parhaus.

Rydym yn credu mewn meithrin diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod nhw wedi'u cynnwys, gan fod safbwyntiau amrywiol yn arwain at benderfyniadau gwell. Yn ystod yr Hydref, datblygon ni gynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CAC) sy'n pennu amcanion y gellir eu mesur i bob un o'n Pwyllgorau, i ysgogi a gwreiddio gwelliannau ar draws y sefydliad a chaiff cynnydd ei fonitro gan y Pwyllgor Pobl. Mae ein data'n dangos bod ein gweithlu'n cynrychioli'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu, ac mae dadansoddiad o'n demograffeg wedi'i gynnwys yn ein hadroddiad blynyddol. Ym mis Awst 2024, croesawon ni chwe pherson ifanc brwdfrydig i'n rhaglen prentisiaid i weithio mewn adrannau amrywiol ar draws y sefydliad, gan gynnwys trwsio, datblygu, cydymffurfio a chynnwys tenantiaid. Bydd y profiad hwn o lygad y ffynnon yn eu galluogi nhw i ddatblygu'r wybodaeth a'r arbenigedd angenrheidiol i ddatblygu gyrfaoedd llwyddiannus yn y sector tai. Mae'r rhan fwyaf o'r prentisiaid yn byw mewn cartref Trivallis, mewn ardaloedd sy'n cynnwys Pen-y-waun, Aberdâr, Aberllechau a Maerdy. Mae'r rhaglen prentisiaethau hon yn rhan o'n hymdrechion ehangach i fuddsoddi yn y gymuned a helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn.

Rydym yn cefnogi gwaith recriwtio pobl anabl yn rhagweithiol drwy'r cynllun hyderus o ran anabledd sy'n golygu ein bod ni'n ymrwymedig i sicrhau cyfleoedd teg i bobl anabl a chynnig gweithle cefnogol. Rydym yn gwarantu cyfweliad o'r holl ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y rôl, ac rydym yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir, gallu a phrofiad. Yn ogystal, rydym wedi cyhoeddi ein Hadroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd ar gyfer 2024 ac mae ein polisïau a'n gweithdrefnau CAC wedi'u diweddaru gydag asesiadau effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd ar gyfer yr holl bolisïau drwy gydol 2025 i lywio cyfleoedd i wella tegwch a chynhwysiant. Y llynedd, derbyniodd ein Timoedd Crefftau, Cynlluniau a Datblygu Ardystiad Cymhwysedd Diwylliannol drwy Diverse Cymru a chyrhaeddodd ein tîm Bod yn Barod a Symud Ymlaen y rhestr fer yng Ngwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru ar gyfer datblygu amrywiaeth, cynhwysiant, cydraddoldeb a chyfiawnder yn rhaglen hyfforddi a fydd yn helpu pobl sy'n paratoi ar gyfer tenantiaeth.

Mae cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant ar ein Bwrdd yn bwysig i ni. Rydym yn ymdrechu i allu tynnu ar amrywiaeth eang o gefndiroedd a phrofiad i wella ein proses o wneud penderfyniadau. Ar hyn o bryd, mae gennym 13 Aelod Bwrdd ac 1 Aelod Pwyllgor Annibynnol. Mae amrywiaeth ein Bwrdd fel a ganlyn: 71% o ddynion, 29% o fenywod, 93% o bobl wen, 7% ethnigrwydd arall, 14% ag anabledd, gydag oedran cyfartalog o 57. Yn ystod 2024, gweithio ni gydag ymgynghoriaeth arbenigol i recriwtio aelod bwrdd cysgodol o gefndir amrywiol ar gontract cyfnod penodedig 6 mis o hyd gyda phrofiad arbenigol mewn datblygu CAC. Bydd recriwtio i Fwrdd y Dyfodol yn canolbwyntio ar wella cydbwysedd ein Bwrdd ac rydym wedi ymuno â'r cynllun Llwybr i Fwrdd i gyflawni hyn, a bydd ein hymgeisydd cyntaf yn dechrau ym mis Mai 2025. Mae Llwybr i Fwrdd yn rhaglen hyfforddi a mentora sy'n cefnogi pobl Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol i fod yn barod i fod ar Fwrdd.

Mae ein holl Aelodau Bwrdd yn mynd drwy broses recriwtio gystadleuol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth iawn i fod yn effeithiol, ac maent yn destun asesiad sgiliau blynyddol. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn bwysig i'n Haelodau Bwrdd gan ei fod yn eu helpu i fod yn arloesol ac yn flaengar. Drwy gydol 2024-25, mae ein haelodau wedi mynd i gynadleddau penodol sector, wedi cwblhau hyfforddiant CAC a rhagfarn ddiarwybod drwy Diverse Cymru ac wedi mynychu sesiynau datblygu mewnol ar risgiau i'r sector cyfan a chyllid ym maes tai. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi gydag Aelodau Bwrdd yn y diwrnod cwrdd i ffwrdd diweddar am yr opsiynau contract gwahanol, risgiau a lliniaru sy'n gysylltiedig â datblygu tai i sicrhau ein bod ni'n cynyddu ein stoc tai i fodloni galw mewn ffordd ddichonadwy wrth i ni barhau i ehangu ein portffolio datblygu tai.

Mae ein Bwrdd yn cwrdd o leiaf chwe gwaith y flwyddyn ac yn cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol gyda chyfranddalwyr. Mae'r Bwrdd a Phwyllgorau'n dilyn cynllun gwaith y cytunwyd arno sy'n galluogi adolygiad wedi'i drefnu o gynnydd yn erbyn y strategaethau, craffu ar berfformiad gweithredol, cydymffurfiaeth yn erbyn cydymffurfiaeth statudol a goruchwyliaeth o reolaeth risg strategol. Mae templedi ein hadroddiad wedi'u cynllunio i gyflwyno cyfleoedd strategol ac ystyriaeth o risg. Mae gennym gyllideb gytbwys, wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd ar gyfer 2025-26 sy'n pennu paramedrau strategol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r holl benderfyniadau strategol mawr, gan sicrhau eu bod yn iawn i ni, ein tenantiaid a'n cymunedau. Mae'r Bwrdd yn disgwyl bod penderfyniadau sy'n effeithio ar gwsmeriaid yn destun ymgynghoriad digonol â thenantiaid yn gyntaf, i sicrhau bod yr argymhellion a wneir i'r Bwrdd yn ystyried barn ein tenantiaid. Er mwyn rhoi cyfle i denantiaid ddylanwadu'n uniongyrchol ar y Bwrdd, mae cynrychiolydd o'r Panel Gweithredu Tenantiaid yn mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd ac yn cyfrannu at y trafodaethau, ac mae cynrychiolydd o'r Bwrdd hefyd yn mynychu'r Panel Gweithredu Tenantiaid fel bod cyd-ddealltwriaeth o'r pynciau allweddol.

Ym mhob cyfarfod y Bwrdd, mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariad fideo gan denantiaid am faterion allweddol ac mae gan y Bwrdd atodlen o ymweliadau â'r gymuned a theithiau i weld stoc i'w cynnal drwy gydol y flwyddyn i alluogi aelodau ein Bwrdd i gysylltu'n uniongyrchol â thenantiaid. Mae tenantiaid yn dylanwadu ar benderfyniadau drwy: pleidlais i gyfranddalwyr yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol, cymryd rhan mewn grwpiau adborth ar y cyfryngau cymdeithasol ac arolygon ar-lein, cymryd rhan yn y broses o recriwtio staff newydd, bod yn aelod o'r panel gweithredu tenantiaid a chymryd rhan mewn prosiectau cymunedol a theithiau cerdded o amgylch cymdogaethau. Yn chwarterol, mae'r Tîm Cynnwys Cwsmeriaid yn adrodd wrth y Pwyllgor Tai a Chymunedau ar yr effaith a wnaed gan denantiaid, megis gwneud penderfyniadau ar ddyrannu grantiau cymunedol, cyd-gynllunio datblygiad Penrhys a chymryd rhan yn y broses o recriwtio ein staff. Rydym ni hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i ddathlu'r cyfraniad a wnaed gan ein tenantiaid i wella'r ffordd rydym yn gweithio.

I sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â gofynion rheoleiddio, rydym yn gweithredu calendr cydymffurfio i sicrhau y caiff yr holl gyflwyniadau data eu cyflwyno ar amser i'r cyrff perthnasol. Mae gennym berthynas agored a thryloyw â'r Rheolydd Tai ac rydym yn cyfathrebu'n rhagweithiol am faterion o ddiddordeb rheoleiddio. Rydym yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant proffesiynol a rhwydweithio i gydweithwyr a thenantiaid i sicrhau ein bod ni'n dilyn y diweddaraf ynghylch newidiadau rheoleiddio ac rydym yn comisiynu arbenigedd allanol fel y bo'n briodol. Eleni, rydym wedi darparu adborth ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cydweithfeydd a Chymdeithasau Budd Cymunedol (Cofrestredig) a'r newidiadau arfaethedig i'r Fframwaith Rheoleiddio i Dai Cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn cydymffurfio â Deddf Rhentu Cartrefi Cymru ac ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda'r sector a Llywodraeth Cymru ar gymhwysiad hanesyddol o gyhoeddi Tystysgrifau Diogelwch Trydanol i denantiaid yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi Cymru.

Sylwadau Tenantiaid:

"Mae rolau wedi'u gwrth-droi, nid yn landlord gyda thenantiaid mwyach ond wedi'i arwain gan denantiaid." "Mae gweledigaeth glir ac mae 90% o'r staff yn gefnogol, mae yna bocedi o staff o hyd sydd angen newid." "Mae tenantiaid wedi bod yn rhan ar bob cam o'r ffordd i ddatblygu'r amcanion." "Wrth aildrefnu gwasanaethau cymdogaeth, roedd tenantiaid yn rhan o'r broses o'r dechrau i'w diwedd." "Bydd meintiau lleiniau bach drwy strwythur gwasanaethau cymdogaeth yn helpu i gynyddu ymddiriedaeth." "Mae'r Prif Weithredwr bob amser yn hapus i gymryd eiliad am sgwrs." "Fel y Panel Gweithredu Tenantiaid, rydym yn teimlo bod yr uwch-dîm yn weladwy, yn gwrando ac yn gwneud i ni deimlo bod gennym lais." "Rydym yn clywed y negeseuon cadarnhaol am RhCT fel lle gwych i fyw."

SRh2 – MAE TREFNIADAU RHEOLI RISG A SICRHAU CADARN AR WAITH.

- Fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolau a sicrwydd mewnol sy'n ei galluogi i nodi'n llwyddiannus a rheoli risgiau presennol ac sy'n datblygu sy'n bygwth cyflawniad strategaeth neu gydymffurfiaeth gyda gofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol.
- Nid yw'n rhoi asedau tai cymdeithasol na thenantiaid mewn perygl gormodol.
- Mae'n cynnal cynlluniau parhad busnes, cynlluniau wrth gefn a chynlluniau adfer yn dilyn trychineb sy'n hygyrch ac yn gyfoes.

Mae ein Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd yn amlinellu ein hymagwedd at reoli risg a rheolau mewnol, i sicrhau bod dulliau effeithiol sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu uniondeb, dibynadwyedd a chywirdeb ein data ariannol a sefydliadol. Fel rhan o'n cylch gwella busnes parhaus, adolygwyd y Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd, a chafodd ei ddiweddaru a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Sicrwydd ym mis Ionawr 2025. Mae hyn yn ei gwneud hi'n bosib alinio prosesau rheoli cofrestri risgiau strategol a gweithredol ac yn cynnig prosesu uwchgyfeirio ac isgyfeirio gadarn rhwng y ddwy gofrestr.

Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod system effeithiol ar gyfer rheoli risg a rheolau mewnol ac mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn datblygu ac yn cymeradwyo'r cynllun archwilio gyda chyngor gan ein harchwilwyr mewnol. Caiff hyn ei gyflawni drwy adolygiadau risg strategol ddwywaith y flwyddyn a gynhelir gan y Bwrdd sy'n cynnwys trafodaeth ynghylch y risgiau posib yn y sector a'r amgylchedd busnes ehangach. Diweddarwyd a chymeradwywyd ein datganiadau parodrwydd i dderbyn risg gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2024 fel rhan o'r adolygiad o risg strategol.

Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn craffu ar reolau mewnol yn drylwyr ac yn cynnig adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ar effeithiolrwydd ein rheolau mewnol y rhoddwyd tystiolaeth o'r Pwyllgor amdanynt drwy gydol y flwyddyn ac mae wedi'i ategu gan archwilio mewnol ac allanol. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, ni dderbynion ni unrhyw argymhellion sy'n hanfodol i'r busnes neu a oedd yn archwiliadau blaenoriaeth uchel. Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn derbyn adroddiad risg ac yn craffu ar y gofrestr risg strategol a data perfformiad cysylltiedig ym mhob cyfarfod pwyllgor, gan fonitro newidiadau a chynnydd lliniaru gweithrediad rheoli. Mae'r holl Bwyllgorau eraill yn derbyn trosolwg o'r risgiau o fewn eu cylch gorchwyl nhw ym mhob cyfarfod, ar gyfer gwybodaeth a monitro. Ym mis Tachwedd 2024, cyflwynon ni broses archwiliad dwfn risg blynyddol ar gyfer yr holl Bwyllgorau i gynnal dadansoddiad manwl strwythuredig o'r risgiau strategol yn holl gylchoedd gorchwyl y Pwyllgor sy'n herio asesiad y risgiau a chadernid y rheolau.

I amddiffyn ein hasedau tai cymdeithasol a thenantiaid o risg ormodol, cymeradwywyd cynllun busnes tri deg blynedd o hyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r Cynllun Busnes yn elfen allweddol o ddatblygu ein dealltwriaeth o berfformiad ariannol y busnes yn y dyfodol ac mae'n helpu ein Bwrdd i reoli risg drwy ddefnyddio senarios profi straen a strategaethau lliniaru i gynnal cydymffurfiaeth cyfamod a gweithredu'n unol â'n rheolau euraidd fel a amlinellwyd yn y Strategaeth Gyllid. Cafodd ein hymagwedd at brofi straen a chynllunio adferiad ei harchwilio'n ddiweddar gan ein darparwr archwilio mewnol ac ni nodwyd unrhyw argymhellion sy'n hanfodol i'r busnes neu flaenoriaeth uchel. Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn diweddaru ac yn cymeradwyo Cynllun Busnes ariannol hirdymor ar gyfer y grŵp, sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'n cyllidwyr.

Yn ogystal, caiff ein Cofrestr Asedau a Rhwymedigaethau ei chynnal bob yn ail fis i ddarparu dadansoddiad trylwyr, cywir a chyfoes o'n hasedau tai, sicrwydd a rhwymedigaeth amodol sy'n cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau a rheoli risg. I ddilysu digonolrwydd, cywirdeb, prydlondeb a hygyrchedd y Gofrestr Asedau a Rhwymedigaeth, mae'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Sicrwydd yn flynyddol i'w chraffu ynghyd â barn archwiliad mewnol ar ein trefniadau Rheoli Trysorlys a aseswyd fel sicrwydd sylweddol ym mis Ionawr 2025. Drwy'r rhaglen ail-gyllido yn 2024, comisiynwyd cyngor trysorlys allanol arbenigol am y trefniadau cyllido gorau i ni a'n tenantiaid a chraffodd y Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi arni cyn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd. Mae ein Bwrdd hefyd yn adolygu gweithgareddau a rhyngweithiadau'r grŵp yn flynyddol gyda'i is-gwmnïoedd i sicrhau y caiff risgiau eu nodi a'u rheoli'n ddigonol i amddiffyn ein gweithgareddau a'n hasedau craidd.

Yn 2024, comisiynon ni ymgynghorwyr allanol i gynnal ymarfer parhad busnes i brofi ein gallu i ymateb i ddigwyddiad a chynnal parhad busnes. Bydd rhoi'r cynllun gweithredu dilynol ar waith drwy gydol 2025-26 yn sicrhau bod gennym ni ymagwedd sefydledig a deinamig. Rydym ni eisoes wedi gwneud newidiadau i'n cynllun mewn argyfwng i fod yn glir am y strategaethau adfer y gellid cael eu gweithredu a byddwn yn sefydlu gweithgor Parhad Busnes a fydd yn cwrdd yn chwarterol i oruchwylio gweithrediad y cynllun gweithredu, datblygiad cynlluniau ymateb penodol i adrannau a phrofi senarios parhaus.

Rydym yn comisiynu arbenigwyr allanol i gefnogi gwaith cynhaliaeth a phrofion parhaus i'n trefniadau seiberddiogelwch a chynlluniau adfer trychineb TG. Caiff Adroddiadau Diogelu Data a Chydymffurfiaeth Seiber eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sicrwydd yn chwarterol gan ddarparu sicrwydd ein bod ni'n rheoli ein rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â deddfwriaeth diogelu data, ynghyd â lliniaru risgiau ar lefelau gweithredol, strategol a busnes cyfan o fewn y sefydliad. Yn ogystal, mae gennym ni wasanaeth y tu allan i oriau swyddfa ar gyfer galwadau brys ac i ymateb i unrhyw waith trwsio mewn argyfwng, wedi'i gefnogi gan oruchwylydd y tu allan i oriau swyddfa ar gyfer ymholiadau ac er mwyn uwchgyfeirio. Rydym ni hefyd yn defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro ein contractau busnes hanfodol a'n hopsiynau wrth gefn, a chaiff hyn ei reoli drwy fforymau caffael chwarterol.

SRh3 – DARPERIR GWASANAETHAU O SAFON I DENANTIAID.

- Yn cadw tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi a nodi unrhyw danberfformiad neu ddiffyg cydymffurfiaeth mewn materion iechyd a diogelwch landlord a'u cywiro.
- Cyflwyno Gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol ein tenantiaid.
- Yn cyflawni ac yn cynnal lefelau uchel o foddhad tenantiaid â gwasanaethau.

- Yn sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad landlordiaid ar gael i denantiaid.

Cadw tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi yw ein blaenoriaeth bennaf ac rydym yn bodloni'r holl ofynion diogelwch a amlinellwyd yn neddfwriaeth a chodau ymarfer a gymeradwywyd. Rydym ni o hyd yn y chwartel uchaf ar gyfer cydymffurfiaeth diogelwch landlord o gymharu â darparwyr tai eraill ac rydym yn cydymffurfio â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) a Deddf Ffit i Fod yn Gartref. Mae ein Bwrdd yn monitro data perfformiad cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch ym mhob cyfarfod y Bwrdd ar gyfer y pynciau canlynol: tân, nwy a thrydan, asbestos, dŵr, radon a pherfformiad diogelwch offer codi ac achosion o leithder a mowld. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Adfywio a Chynaliadwyedd wedi craffu ar ein hymagwedd ragweithiol at ddatrys lleithder a mowld. Rydym yn sicrhau bod ein hymagwedd at leithder a mowld yn alinio ag arfer gorau presennol ac yn defnyddio dulliau datrys effeithiol i ymdrin â'r mater pwysig hwn.

Drwy gydol mis Ionawr 2025, darparodd ein tîm Iechyd a Diogelwch gyflwyniad i'r gweithgor Erosh ar reoli diogelwch rheoli mewn tai â chymorth i rannu ein hymagwedd arfer gorau at ddiogelwch tenantiaid sy'n agored i niwed o beryglon tân a darparwyr tai eraill o bob cwr o Gymru. Cynhaliwyd asesiad archwilio mewnol ym mis Mehefin 2024 ar ein trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid, ac aseswyd fel sicrwydd sylweddol ar ein rheolau. Yn ogystal, cynhaliwyd gwiriadau rheoli allweddol penodol gan ein harchwiliad mewnol er mwyn ystyried cydymffurfiaeth â diogelwch nwy, gwiriadau o'r lifftiau, profi dŵr, asesiadau risg o dân, asesiadau trydanol, rheoli asbestos ac asesiadau risg gwaith mawr. Gwnaed un argymhelliad blaenoriaeth isel ar gyfer gwella ac mae hyn wedi'i roi ar waith.

Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn craffu ar yr holl adroddiadau archwilio mewnol ac mae Pwyllgorau eraill yn gweld yr adroddiadau sy'n berthnasol i'w cylch gorchwyl nhw ar gyfer gwybodaeth. Mae ein Pwyllgor Iechyd a Diogelwch traws-sefydliadol yn cwrdd bob yn ail fis i adolygu'r holl feysydd o gydymffurfiaeth, iechyd a diogelwch. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn gylchol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn barhaol a chaiff unrhyw newidiadau o ran polisi eu hargymell i'n Bwrdd i'w cymeradwyo. Mae'r Pwyllgor Tai a Chymunedau yn cynnwys Aelodau Bwrdd a chynrychiolydd o'r Panel Gweithredu Tenantiaid, gan dderbyn adroddiadau ar gynnydd i waith trwsio, cwynion, lleithder a mowld a chydymffurfiaeth diogelwch i'w craffu. Mae'r Pwyllgor Adfywio a Chynaliadwyedd yn derbyn adroddiadau ar gynnydd yn erbyn rhaglen gynhaliaeth gynlluniedig, cydymffurfiaeth â Safonau Ansawdd Tai Cymru ac adroddiad amgylcheddol a chynaliadwyedd i'w craffu. Mae'r Pwyllgor Adfywio a Chynaliadwyedd hefyd wedi goruchwylio'r materion a nodwyd gennym gyda choncrit awyredig aerglos wedi'i atgyfnerthu ac mae'r datrysiad a'r rhaglen i ddatrys hyn bellach ar waith a disgwylir iddo gael ei orffen yn 2025/26. Caiff cofnodion yr holl Bwyllgorau eu rhannu gyda'r Bwrdd at ddibenion goruchwyliaeth. At hynny, caiff cydymffurfiaeth â Safonau Ansawdd Tai Cymru ei gyflwyno i'r Bwrdd yn flynyddol.

Yn ystod 2024, adolygon ni ein darpariaeth Gwasanaethau Cymdogaeth ac o ganlyniad, rydym wedi sefydlu ymagwedd Tîm o Amgylch y Tenant newydd i ddiwallu anghenion unigol ac amrywiol ein tenantiaid. Caiff hyn ei gyflawni drwy feintiau lleiniau llai i greu capasiti o fewn timoedd i weithio'n gydweithredol gyda thenantiaid a mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n cefnogi tenantiaid i ffynnu. I ddarparu ein timoedd â'r sgiliau i fabwysiadu'r ffordd newydd hon o weithio, cyflwynon ni raglen gyfathrebu gydweithredol i'r holl gydweithwyr drwy gydol 2024-25 sy'n canolbwyntio ar y ffordd rydym yn cyfathrebu â thenantiaid. Mae'r ymagwedd ar sail cryfderau hon yn ein galluogi ni i weithio gyda thenantiaid mewn ffordd sy'n eu helpu i ganfod eu datrysiadau eu hunain sy'n gweithio iddyn nhw. Mae gennym amrywiaeth o dimau arbenigol i gefnogi ein tenantiaid, sydd am ddim, sy'n gyfrinachol ac yn ddiduedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Tîm cyngor ariannol**: sy'n gweithio gyda thenantiaid i sicrhau eu bod yn derbyn y budd-daliadau a'r grantiau iawn, yn darparu cymorth wrth reoli arian a chyllidebu, ac yn rhoi cronfa caledi argyfwng i'r bobl hynny sy'n ei chael hi'n anodd talu biliau neu nad ydynt yn gallu fforddio nwyddau hanfodol. Drwy gydol 2024-25, mae ein tîm wedi helpu 3,164 o denantiaid i gael mynediad i £5.4 miliwn mewn cymorth ariannol.
- **STEPS**: sy'n cefnogi tenantiaid i gynnal eu tenantiaid drwy ddarparu cymorth ymarferol gyda sgiliau byw, mynediad at wasanaethau cymorth, a datrys ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- **Rhaglen cymorth a mabwysiadu**: mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol a Therapi Galwedigaethol, rydym wedi buddsoddi £1.6 miliwn i alluogi pobl i barhau i fyw'n ddiogel yn eu cartrefu dros y flwyddyn ddiwethaf.
- **Arbenigwyr Lleithder a Mowld**: helpu tenantiaid i fynd i'r afael â'r materion a chanfod yr ateb iawn i'r broblem.
- **Bod yn barod a Symud Ymlaen (GRAMO)**: gwasanaeth cymorth cyn-denantiaeth a gomisiynwyd gan CBS Rhondda Cynon Taf yw hwn i ddarparu hyfforddiant cyn denantiaeth i bobl sy'n cyflwyno ceisiadau am dai sy'n profi digartrefedd neu sy'n barod i symud ymlaen o Lety â Chymorth neu Wasanaethau Gofal. Mae'r rhaglen ddysgu yn cefnogi tenantiaid amrywiol i baratoi ar gyfer tenantiaeth ac yn sicrhau cynhwysiant gyda mynediad i wasanaethau cymorth. Roedd 212 o atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn: Mae atgyfeiriadau'n parhau i gynyddu'n gyson o flwyddyn i flwyddyn. Cwblhaodd 168 o unigolion y cwrs hyfforddi llawn (pob modiwl) sy'n gyfradd gwblhau o 79%.
- **MAGPIE**: gwasanaeth cymorth gyda chelcio uwch a anelir at ddileu rhwystrau i bobl sy'n eu hatal rhag chwilio am help, cyngor a chymorth. Roedd 16 o atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn a oedd yn gymwys am Magpie uwch a chafodd 24 o bobl eu cefnogi yn ystod y flwyddyn.
- **SAFE**: dyma ymyriad ac ataliaeth i helpu i ddatrys problemau yn gynnar a blaenoriaethu'r bobl hynny mewn perygl o ddigartrefedd, datrys anawsterau tai cyn gynted â phosib, a chefnogi pobl i gyrchu a chadw llety priodol. Yn 2024-25, derbyniwyd a phroseswyd cyfanswm o 925 o atgyfeiriadau gan SAFE o'r Tîm Grantiau Cymorth Tai.

Gellir cyrchu ein holl wasanaethau cymorth drwy'r wefan neu drwy ein canolfan gyswllt.

Ar y cyfan: boddhad 77%, Ymddiried yn Trivallis 76%. Eich cartref: Gwaith Trwsio a Chynhaliaeth 66%, Diogelwch 81%, Ansawdd 71%, Rhent sy'n werth am arian 81%, tâl gwasanaeth gwerth am arian 57%. Eich cymdogaeth: Fel lle i fyw 75%, delio ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 57%. Ymgysylltu â chi: Dweud eich dweud ar reolaeth gwasanaethau 47%, gwrando ar farn a gweithredu arnynt 61%, cymryd rhan mewn penderfyniadau 46%.

Rydym yn cymryd ymagwedd agored a thryloyw at ein perfformiad fel landlord ac yn rhannu gwybodaeth gyda thenantiaid drwy'r gweithgorau canlynol: Gwaith Trwsio, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Cymdogaethau, Asedau, Cwynion a Thai â Chymorth. Rydym hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r holl denantiaid drwy'r cyfryngau cymdeithasol, adroddiadau gwefan, teithiau tywys o amgylch ystadau ac mewn digwyddiadau cymunedol. Yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, rydym yn trafod ein hadroddiad blynyddol gyda thenantiaid a datganiadau ariannol ac mae ein Panel Gweithredu Tenantiaid yn cyfrannu at yr adolygiad o ganlyniadau boddhad tenantiaid a'n hunanasesiad rheoleiddio.

Sylwadau Tenantiaid:

"Mae perfformiad iechyd a diogelwch yn dda iawn lle dw i'n byw." "Mae data perfformiad yn dangos bod Trivallis yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer perfformiad." "Bydd y tîm o amgylch y tenant newydd yn helpu i wella gwasanaethau a'r berthynas rhwng Trivallis a thenantiaid." "Mae llawer iawn o waith meddwl a thrugaredd yn cael eu dangos tuag at denantiaid i'w helpu ar lefel unigol." "Mae'r peiriannydd nwy bob amser yn siarad â mi ac yn gofyn sut mae fy nheulu, gan ei fod yn eu hadnabod oherwydd eu bod nhw'n denantiaid hefyd." "Mae boddhad yn cynyddu ac yn gyffredinol, mae'n

mynd i'r cyfeiriad iawn." "Nid yw'r profiad o gontractwyr yr un peth â'r gwaith a wneir gan Trivallis." "Mae GRAMO yn gwrs gwych. Gwnes i wir mwynhau fy amser yn cwblhau'r sesiynau hyn. Dw i'n teimlo'n fwy parod i symud ymlaen nawr fy mod i wedi gorffen y cwrs. Diolch i Dorian, roedd y sesiynau'n rhwydd i'w cwblhau ac yn rhwydd eu deall. Nid oedd y gweithlyfrau mor anodd â hynny. Siaradon ni am lawer o bethau eraill megis pêl-droed a cherddoriaeth hefyd a oedd yn braf oherwydd fy mod i'n gwybod na fyddai gwaith a phethau difrifol yn unig. Cwblheais i'r cwrs gydag un o'm ffrindiau a oedd yn wych oherwydd ei fod e'n meddwl am symud allan hefyd a dw i'n gwybod y gwnaeth e fwynhau hefyd. Byddwn i'n dweud wrth unrhyw un sydd eisiau cael ei le ei hun i fynd i GRAMO"

SRh4 – CAIFF TENANTIAID EU GRYMUSO A'U CEFNOGI I DDYLANWADU AR GYNLLUNIO A DARPARIAETH GWASANAETHAU.

- Creu diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid.
- Mae tenantiaid yn deall yr ymagwedd at gyfranogiad tenantiaid, sut i gymryd rhan, gwrando a gweithredu ar adborth tenantiaid ac yn dysgu o gwynion.
- Mae'n darparu cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan, yn gallu dangos bod tenantiaid yn fodlon ac yn gallu dangos y gwahaniaeth mae cyfranogiad yn ei wneud.
- Mae'n dangos safbwyntiau tenantiaid amrywiol ac mae disgwyliadau yn llywio datblygiad ac adolygiad o dai a gwasanaethau, ac yn ymateb i danberfformiad.

Mae ein fframwaith Adeiladu Dyfodol Disglair yn ategu ein diwylliant tuag at ymgysylltiad tenantiaid drwy bedair elfen allweddol:

- **Dan Berchnogaeth Tenantiaid:** Rydym y sefydliad elusennol nid-er-elw dan berchnogaeth tenantiaid, sef ein prif gyfranddalwyr. Maent yn ethol ein Bwrdd a gallant gymryd rhan wrth redeg y sefydliad. Gall unrhyw denant fod yn gyfranddaliwr, gyda nifer fach o eithriadau.
- **Gweithio ar y cyd:** Mae cydweithio wrth wraidd popeth a wnawn. Nid oes unrhyw "nhw" a "ni"—rydym yn gweithio fel un tîm o denantiaid, staff ac aelodau Bwrdd.
- **Gwreiddiau yn ein cymuned:** Rydym wedi'i leoli ym Mhont-y-pridd, gyda'r rhan fwyaf o'n staff yn byw yn lleol. Rydym yn ymrwymedig i aros a chael effaith hirdymor yn ein cymunedau.
- **Cyfranogiad rhagweithiol:** Mae tenantiaid, staff a chymunedau yn helpu i lywio polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau. Mae eu cyfranogiad yn sicrhau tryloywder, atebolrwydd a thegwch. Mae llawer o ffyrdd o gymryd rhan, gan gynnwys bod yn **gyfranddaliwr,** ymuno â'r **grŵp adborth ar-lein,** cymryd rhan mewn **fforwm ar-lein,** ymuno â **grŵp gorchwyl a gorffen,** bod yn rhan o **weithgor,** helpu **i recriwtio staff newydd,** ymuno â'r **Panel Gweithredu Tenantiaid** ac mae hefyd **gyfleoedd lleol** megis prosiectau cymunedol a theithiau tywys yn y gymdogaeth.

Ar 29 Hydref 2024, ymunodd 150 o denantiaid â ni yng Nghanolfan Gelfyddydol Muni ar gyfer T-Fest, sef ein cynhadledd i denantiaid, i drafod pynciau allweddol, rhwydweithio â'n Bwrdd a dathlu'r prosiectau a'r bobl wych yn ein cymunedau drwy gydnabod cyfraniadau mae tenantiaid wedi'u gwneud at ddatblygu polisi, arolygon tenantiaid, datblygu cynlluniau gweithredu gweithredol, gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â thenantiaid a chyfrannu at ddatblygiad ein strategaethau allweddol. Gall tenantiaid gael rhagor o wybodaeth am y gwahaniaeth gallant ei wneud ar ein gwefan neu drwy gysylltu â'r Tîm Cyfranogiad Cwsmeriaid.

Yn aml, rydym yn cynnal digwyddiadau cymunedol megis y diwrnod ystâd gwych diweddar yng Nglyngoch lle daeth cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad ynghyd gyda'r gymuned i roi ychydig o liw i fannau cymunedol, rhannu syniadau am weithgareddau yn y dyfodol a chanfod beth mae preswylwyr yn dwlu arno yn byw yng Nglyngoch a beth sydd wir yn bwysig i breswylwyr a allai wneud gwahaniaeth yn eu cymuned. Un o ganlyniadau digwyddiadau fel hyn yw ei fod yn helpu staff a thenantiaid i gysylltu â'n hamcanion strategol.

Mae ein gweithgorau tenantiaid wedi cyfrannu at ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, megis cyflwyno pecynnau paent i denantiaid newydd, ymgymryd ag adolygiad o'n polisi anifeiliaid anwes mewn ymateb i newidiadau i'r Ddeddf Cŵn Peryglus, datblygu cynllun gweithredu a adolygwyd ar gyfer ein tîm gwasanaethau cymdogaethau a datblygu proses adolygu ar gyfer cwynion cymhleth.

Enghraifft o denantiaid sydd wedi ein helpu ni i ddatrys tanberfformiad yw ein Gweithgor Trwsio, lle mae cydweithwyr a thenantiaid wedi cydweithio mewn prosiect galw a chapasiti gwaith trwsio drwy adolygu ein polisi'n gyfan gwbl a chynnig amserlenni newydd ar gyfer y gwaith. Mae hyn wedi cefnogi gwelliant mewn gwasanaethau, gan leihau'r ôl-groniad a gwella trwsiadau ymatebol ar amser gan 20%, gan arwain at effaith gadarnhaol ar foddhad tenantiaid. Caiff adroddiad effaith ar denantiaid ei ddarparu i bob Pwyllgor Tai a Chymunedau ac yn 2024, cyhoeddon ni ein hadroddiad effaith ar denantiaid cyntaf, a bydd hyn yn parhau i gael ei gyhoeddi'n flynyddol.

Sylwadau Tenantiaid:

"Ie, 110% yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel tenant sy'n cymryd rhan." "Dw i'n teimlo fy mod i'n gallu ymuno â sgyrsiau o ganlyniad i'r hyfforddiant, mae ein hyfforddiant wedi bod yr un peth â staff." "Mae hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol wedi helpu tenantiaid a staff i gyfathrebu; mae'n teimlo fel ymagwedd fwy cynnes nawr." "Ymagwedd Trivallis yw rhoi'r gymuned yn gyntaf." "Mae fy nghymydog, nad yw'n denant sy'n cymryd rhan, wedi dweud ei fod wedi sylwi gwahaniaeth (cadarnhaol) yn Trivallis." "Mae Trivallis yn gwneud ei orau glas, mae pobl yn gwrando arnom lawer mwy." "Mae dal angen canfod ffordd o gael barn pobl ifanc a'u helpu i fynegi eu barn." "Mae tenantiaid yn siarad â thenantiaid yn bwerus iawn." "Mae Trivallis yn gwneud cysylltiadau ynghylch yr hyn sy'n bwysig i bobl, ac nid yr hyn sy'n bwysig i Trivallis."

SRh5 – MAE RHENTAU A THALIADAU GWASANAETH YN FFORDDIADWY I DENANTIAID PRESENNOL A'R DYFODOL.

- Mae'n sicrhau y cydymffurfir â'r holl reolau a chanllawiau statudol perthnasol (gan gynnwys cytundeb rhent presennol).

Pwrpas ein Polisi Gosod Rhent yw sicrhau bod ein rhentau'n deg, yn dryloyw ac yn fforddiadwy i denantiaid. Er mwyn cyflawni hyn, mae methodoleg Rhent Byw wedi'i llunio sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau ymhlith teuluoedd sy'n byw yn ein cartrefi a'r amrywiad o ran lefelau incwm ledled Rhondda, Cynon Taf a Chaerdydd. Datblygwyd y polisi hwn fel cydweithrediad rhwng tenantiaid sy'n cymryd rhan, aelodau'r Bwrdd a chydweithwyr. Sefydlwyd gweithgor o denantiaid, aelodau bwrdd a chydweithwyr a wnaeth gwrdd sawl gwaith yn ystod y flwyddyn i amlinellu'r amcanion allweddol a hanfodion y polisi. Yna, cafodd y rhain eu cynnwys yn niffiniad rhent byw a dadansoddwyd ei effaith ar denantiaid presennol a newydd i sicrhau bod fforddiadwyedd yn parhau i fod wrth wraidd y polisi.

Ymagwedd pennu rhent ar gyfer 2024-25: Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos sut rydym wedi cydymffurfio â'r gofyniad ar gyfer Safon Rhent a Thaliadau Gwasanaethau Llywodraeth Cymru wrth osod ein rhentau ar gyfer 2024-25:

Gofyniad	Yr hyn a wnaethom ar gyfer 2024/25
Cydymffurfiaeth â safon rhent a thaliadau gwasanaethau tai cymdeithasol (SRh5)	Mae ein hasesiad yn **wyrdd** heb feysydd i'w gwella.
CPI+1% yw uchafswm y cynnydd yn gyffredinol y caniateir mewn unrhyw flwyddyn unigol ond ni ellir ystyried CPI+1% fel ymgodiad awtomatig i'w cymhwyso gan landlordiaid cymdeithasol.	Wrth bennu'r rhent o fis Ebrill 2024, roedd CPI +1% yn 6.7%. Roedd y papur gosod rhent a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2023 yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cynnydd rhent o 6.7%.
Gellir lleihau, rhewi neu godi rhentau tenantiaid unigol gan "hyd at £2 ychwanegol" yr wythnos ar yr amod nad yw cynnydd cyffredinol landlordiaid cymdeithasol mewn incwm rhent yn fwy na CPI+1%.	Ni wnaethom ni gynyddu unrhyw rentau gan fwy na 6.7%.
Os bydd y CPI yn dod y tu allan i'r ystod o "0% i 3%", bydd y cyfrifoldeb yn aros gyda Gweinidogion Cymreig i bennu'r ymgodiad perthnasol i'w gymhwyso ar gyfer y flwyddyn hon.	Ar 27 Hydref 2023, cynghorodd Llywodraeth Cymru (LlC) landlordiaid cymdeithasol y byddai'r cyfanswm o ymgodiad rhent blynyddol yn cael ei bennu i fod yn 6.7%.
Rhaid i landlordiaid cymdeithasol ddweud wrth Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol os bydd pryderon am effaith y safon rent ar eu cynllun busnes, eu dichonoldeb ariannol, neu ar eu gallu i fodloni eu rhwymedigaethau i denantiaid a benthycwyr.	Mae'r Cynllun Busnes yn cymryd yn ganiataol bod cynnydd rhent o 6.15% yn cyd-fynd â lle roeddem yn disgwyl i chwyddiant fod pan gymeradwywyd y cynllun. Mae cymhwyso'r lefel CPI uwch o 6.7% i'r cynllun yn cynyddu'r costau di-dâl gan y swm hwn hefyd. Dros gyfnod o 10 mlynedd, mae hyn yn creu gweddill ychwanegol o £2.2 miliwn sydd ar gael i'w ailfuddsoddi mewn cartrefi.
Disgwylir i landlordiaid cymdeithasol osod taliadau gwasanaethau sy'n rhesymol ac yn fforddiadwy. Mae gofyn i landlordiaid adolygu taliadau gwasanaethau yn flynyddol; gan sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian i'w tenantiaid a'u bod yn fforddiadwy. Mae gofyn i landlordiaid restru eu taliadau gwasanaethau ar wahân i'r rhent, i sicrhau bod hyn yn dryloyw i denantiaid.	Gosodwyd y taliadau gwasanaethau ar gyfer anghenion cyffredinol yn 2024/25 i £167.87 y flwyddyn (£3.17 yr wythnos dros 53 wythnos), sef cynnydd o £0.09 yr wythnos, 1.9% o 2023/24. Taliad gwasanaethau wythnosol cyfartalog y Cynllun â Chymorth ar gyfer tenant ar gynllun â chymorth yw 2024/25 yw £45.11 o'i gymharu â £34.12 yn 2023/24, sef cynnydd o £10.99, sy'n gynnydd o 32% yr wythnos. Y prif ysgogwr i'r cynnydd yw costau ynni. Mae costau ynni wedi bod yn arbennig o sensitif i amodau byd-eang ac maent wedi bod yn dyst i gynyddiadau pris sylweddol, gan effeithio ar y taliad gwasanaethau ar gyfer 2024/25 (gan fod ein taliadau gwasanaethau yn cael eu codi o edrych yn ôl ar gyfer costau'r flwyddyn flaenorol). O'r 23 cynllun sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, mae pob un o'r 23 cynllun wedi bod yn destun cynnydd yn eu taliadau gwasanaethau ar gyfer 2024/25 (cyfanswm o £20.57). Ar y cyfan, mae'r taliadau gwasanaethau wythnosol yn amrywio o £25.04 i £65.45. Mae'r

	taliadau hyn yn amrywio'n sylweddol oherwydd bod y gwasanaethau a ddarperir yn unigryw i bob cynllun. Y taliad gwasanaeth ar gyfer dŵr ym Mae Caerdydd yw £254.93 y flwyddyn (£4.81 yr wythnos dros 53 wythnos) sef lleihad o £38.16 y flwyddyn (£0.72 yr wythnos o 23/24). Taliadau gwasanaethau lesddeiliaid ar gyfer 631 o leiddeiliaid mewn 364 o flociau o fflatiau ar wahân. Ar gyfartaledd, bydd lesddeiliaid yn talu taliad gwasanaethau blynyddol o £288.33 yn 2024/25, hyd at £266.75 yn 2023/24, sef cynnydd o £21.58, sy'n 8%.

Ymagwedd gosod rhent ar gyfer 2025-26: Ar 20 Rhagfyr 2024 cymeradwyodd y Bwrdd gynnydd blynyddol mewn rhentau o 2.7% yn effeithiol o 1 Ebrill, yn unol â chyfraddau chwyddiant CPI o fis Medi 2024. Mae taliadau gwasanaethau'n parhau i gael eu cyfrifo yn seiliedig ar gostau gwirioneddol a ysgwyddir, gydag unrhyw dangroniad neu gorgroniad o'r flwyddyn flaenorol yn cael ei ychwanegu neu ei ddidynnu o daliad y flwyddyn bresennol. Ni wnaethom gynyddu unrhyw rentau gan fwy na 2.7%, ar wahân i gydgyfeirio rhentau canolradd i Gymdeithasau Tai Lleol fel a gytunwyd y llynedd. Lle mae cynnydd penodol mewn rhentau, e.e. eiddo masnachol sydd wedi'i alinio â chontractau, yna bydd y cynnydd mewn rhent yn dilyn y cyfarwyddebau hynny.

Sylwadau Tenantiaid:

"Mae'r graffiau yn ei gwneud hi'n hawdd gweld lle mae'r arian yn cael ei wario." "Roedd grŵp ohonom a oedd y rhan o'r broses gosod rhent." "Roedd y cyflwyniad am rentau a gafodd ei gyflwyno yn y gymuned yn dda iawn ond ni aeth lawer o bobl." "Rydym yn deall sefyllfa Trivallis a pham bod angen y cynnydd mewn rhent." "Helpon ni lunio'r polisi rhent." "Mae'n gwneud synnwyr i godi mwy o rent os gall y cleient arbed arian o arbedion ynni." "Roedd arolwg i ganfod pa wasanaethau mae tenantiaid eu heisiau, roeddem yn gwrando a newidiwyd yr ymagwedd." "Mae yn dal i fod peth gwaith i'w wneud i sicrhau bod taliadau gwasanaethau â chymorth yn rhoi'r hyn a dalwyd amdano."

SRh6 – MAE GAN Y SEFYDLIAD YMAGWEDD STRATEGOL AT WERTH AM ARIAN SY'N LLYWIO EI HOLL GYNLLUNIAU A GWEITHGAREDDAU.

- Yn pennu ymagwedd strategol at Werth am Arian, gan sicrhau bod yr ymagwedd yn cyd-fynd â'i ddiben cymdeithasol, yn gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol yn unol â hyn.
- Gallu dangos i randdeiliaid, gan gynnwys tenantiaid, ei fod yn cyflawni gwerth am arian wrth gyflawni ei strategaeth a'i wasanaethau.

Rydym yn cynnal grŵp Gwerth am Arian sy'n cynnwys cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad. Mae gan y grŵp gylch gorchwyl clir ac mae'n canolbwyntio ar dri maes allweddol:

1. Dangos effeithiolrwydd yn y ffordd rydym yn gweithio drwy gyfres barhaus o adolygiadau o brosesau ac adrannau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gweithgor wedi nodi ac wedi bod yn monitro cynnydd y mentrau canlynol:

- Disgwylir i adolygiad o wasanaethau cymdogaeth a'r ymagwedd tîm o amgylch y tenant leihau galw drwy alwadau ffôn drwy gynnig mynediad gwell at ymweliadau wyneb yn wyneb, mae rhoi ar waith yn cael ei fonitro i gofnodi effaith rhoi'r newidiadau ar waith.
- Mae cyflogi ein peiriannydd atal tân ein hun yn arbed tua £300,000 y flwyddyn.
- Mae gwneud gwaith trwsio yn fewnol yn arbed brasamcan o £43,000
- Mae cyflenwi pecynnau paent i leihau costau gwacter a gwella amseroedd cyflawni yn arbed £250,000

2. Gwerth a ychwanegir o gontractau allanol
    - Mae sicrhau buddion ar gyfer ein cymunedau yn rhan allweddol o'n holl gontractau cynhaliaeth a datblygu a gynlluniwyd ac mae wedi ein helpu i ddarparu asedau cymuned leol megis offer chwaraeon, cegin mewn prosiect cymunedol a gwaith trwsio yn hyb y gymuned ym Mhentref yr Eglwys yn ogystal â darparu hyfforddiant a chyfleoedd i brentisiaid a noddi grwpiau lleol megis Mothers Matters yn Nhonypandy.

3. Dangos arbedion arian parod y gellir eu hailfuddsoddi i rannau eraill o'r sefydliad
    - Cafodd swyddi gwag eu cydbwyso yn erbyn newid strwythur gwasanaethau cymdogaeth i leihau'r effaith ariannol.
    - Gwerthu dau gerbyd oedd yn heneiddio yr oedd Trivallis yn berchen arnynt £8,058.47.
    - Bydd arbedion gwerth £250,000 yn y gyllideb o wacter Penrhys, chwaliadau, treth y cyngor yn cael eu hailddyrannu i waith adfywio yn y gymuned.
    - Cododd cynllun ailgylchu gwaredu asedau TG £840 ar gyfer ein partner elusennol Valleys Kids.
    - Buddsoddwyd Grant Buddion Cymunedol gwerth £30,000 mewn amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys storfa biniau newydd yn Andrews Court.

Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn cymeradwyo ein hymagwedd gwerth am arian ac mae'n goruchwylio ein mentrau gwerth am arian drwy ddiweddariad blynyddol ar gynnydd.

Rydym yn dangos cyflawniad ein strategaeth gwerth am arian i randdeiliaid a thenantiaid drwy gyhoeddi data yn yr adroddiad blynyddol ar ein gwefan ac rydym yn gweithio gyda'n Panel Gweithredu Tenantiaid i nodi meysydd ar gyfer effeithlondeb pellach drwy is-grwpiau maent yn eu comisiynu fel grwpiau gorchwyl a gorffen.

Sylwadau Tenantiaid:

"Bydd tîm o amgylch y tenant yn gwella'r ffordd rydych chi'n gweithio gyda phobl." "Rydym yn gweld yr arian yn cael ei warion yn y gymuned." "Cafodd y gweithgor trwsio'r syniad o becynnau paent yn lle paentio tai yn llawn i arbed amser wrth symud tenant arall i mewn." "Dw i ar y gweithgor grantiau buddion cymunedol ac mae llawer o brosiectau wedi cael eu hariannu."

SRh7 – MAE CYNLLUNIO A RHEOLI ARIANNOL YN GADARN AC YN EFFEITHIOL.

- Mae'n gosod cynlluniau ariannol sy'n ei alluogi i gyflawni ei strategaeth a chyflawni ei ddiben cymdeithasol, ac mae adrodd priodol wrth y Bwrdd yn erbyn cynlluniau.
- Mae'n ddichonoadwy yn ariannol yn y tymor byr, tymor canolog a'r tymor hir, ac mae'n cadw cyllid a hylifedd digonol i gefnogi hyn.
- Mae'n monitro, yn adrodd am ac yn cydymffurfio â'r holl gyfamodau mae wedi cytuno arnynt gyda chyllidwyr.
- Mae'n nodi risgiau ac yn eu rheoli'n effeithiol i gyflawni cynlluniau ariannol, gan gynnwys profion straen priodol, cynllunio senarios a'r defnydd o drothwyon mewnol.
- Mae ganddo strategaeth rheoli'r trysorlys a phrosesau cysylltiedig sy'n effeithiol.

I amlinellu'r cynlluniau ariannol, mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu cynllun busnes 30 blynedd o hyd ac ym mis Chwefror 2025, cytunwyd ar gyllideb flynyddol ar gyfer 2025-26 i gefnogi'r cynllun hirdymor. Mae'r cynllun busnes yn cyd-fynd â'r strategaethau corfforaethol a chynlluniau gweithredol a fydd yn cyflawni'r amcanion. Mae'r cefndir o heriau economaidd wedi bod yn un syfrdanol drwy gydol 2024-25, gyda chwyddiant yn parhau i fod yn uwch na'r hyn a ddisgwylid am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, gyda chwymp annisgwyl ym mis Medi 2024 a wnaeth effeithio ar ein cynnydd rhent, ynghyd â chyfraddau llog uwch a chynnydd annisgwyl mewn Yswiriant Gwladol yn deillio o ddatganiad cyllideb yr hydref 2024.

Mae ein Bwrdd yn derbyn adroddiadau chwarterol am berfformiad ariannol, gan gynnwys perfformiad gweithredol, cyfrifon rheoli gan gynnwys perfformiad y trysorlys, ynghyd ag adroddiadau blynyddol am reoli'r trysorlys, gwerth am arian, polisi gosod rhent, y cyfrifon blynyddol a datganiad yr archwilydd allanol. Mae'r adroddiadau'n cael eu hystyried o flaen llaw gan y Pwyllgor Cyllid a Buddsoddi sydd â'r amser i aelodau gyda'r set iawn o sgiliau ymgymryd â dadansoddiad dwfn o berfformiad ariannol, gan gynnwys'r craffu ac yn herio mwy.

Gwnaethom sicrhau £75 miliwn o gyllid newydd yn 2024, ynghyd â diweddariad i'n cyfamodau sy'n creu mwy o gapasiti i dyfu'r busnes, gan gynnwys buddsoddi mewn datblygiadau newydd. Mae'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2025-26 yn cynnig sefyllfa ariannol gadarn ar gyfer y flwyddyn. Mae'n darparu gwarged o £6.9 miliwn, gorswm gweithredu o 15.8% (o'i gymharu â'r rhagolwg ar gyfer 2024-25 o 17.0%) a chydymffurfiaeth cyfamod a hyblygrwydd o £16.2 miliwn yn seiliedig ar ein cytundeb cyllido llymaf o 140% ar Enillion Cyn Llog, Treth, Dibrisiant, ac Amorteiddiad. Cafodd ein hymagwedd at brofion straen a chynllunio senarios ei hasesu gyda barn archwilio mewnol o sicrwydd digonol ym mis Chwefror 2025 a chanlyniad yr archwiliad mewnol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys ym mis Ionawr 2025 oedd barn archwilio sicrwydd sylweddol.

Yn dilyn cwblhad cynllun busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25, sy'n gysylltiedig â'r uchelgais strategaeth ddatblygu o adeiladu 130 o dai y flwyddyn, rhagwelir y bydd cynnydd mawr mewn gwariant datblygu. Caiff hyn ei fonitro drwy'r Cynllun Busnes (ddwywaith y flwyddyn) i sicrhau ein bod ni'n aros o fewn ein cyfamod a meini prawf euraidd. Yn ogystal, rydym wrthi'n ymgorffori cwmni datblygu (TriCwm), a fydd yn alinio ei strwythurau gweithredol â rheini Cymdeithasau Tai eraill yng Nghymru i sicrhau ein bod ni'n mwyafu gwerth am arian i denantiaid wrth brynu cyfleoedd datblygu.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, cwblhawyd ein strategaethau trysorlys gennym, a oedd yn cynnwys ailgyllido benthyciadau, cytuno ar sicrwydd llog llai beichus a gerio cyfamodau.

Mae'r rhwymedigaeth amodol yr adroddwyd amdano yn y datganiadau ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 mewn perthynas â Deddf Rhentu Cartref Cymru, yn parhau i gael ei chynnig fel rhwymedigaeth amodol ar gyfer cyfrifon blwyddyn ariannol 2024-25 gyda chyfranogiad Llywodraeth Cymru, sydd wedi cadarnhau ymagwedd gefnogol barhaus at y sector a'n cyllidwyr.

SRh8 - MAE ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU WEDI'U RHEOLI'N DDA.

- Mae dealltwriaeth gywir a chyfoes o'i asedau a'i rwymedigaeth.
- Mae'n mwyafu'r defnydd o asedau i gyflawni diben cymdeithasol ac amcanion y sefydliad.
- Mae'n defnyddio gwybodaeth gywir am asedau a rhymedigaeth i lywio penderfyniadau strategol ac ariannol.

Caiff ein Cofrestr Asedau a Rhwymedigaeth ei chynnal bob yn ail fis i ddarparu sefyllfa drylwyr, cywir a chyfoes o'n hasedau tai, sicrwydd a rhwymedigaeth amodol sy'n cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau a rheoli risg. Mae'r ddealltwriaeth hon o'n hasedau wedi arwain at flaenoriaethu gwaith adfywio ym Mhenrhyd, Mitchell Court, Fanheulog yn ogystal â phenderfyniadau graddfa fach i gael gwared ar long llaw o gartrefi ar draws ardaloedd lle nad yw'n ddichonadwy mwyach.

I sicrhau bod ein data am asedau a rhwymedigaethau'n gywir, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cwblhau 2,700 o asedau cartrefi cyfan i ddarparu data cywir am gyflwr ein cartrefi, a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau yn y dyfodol. At hynny, mae 2,100 o dystysgrifau perfformiad ynni (EPC) wedi'u cwblhau i ddarparu data ynni cywir a nodi gwelliannau posib a allai wneud ein cartrefi'n fwy fforddiadwy i'n tenantiaid ac a fydd yn ein helpu i gynllunio ein rhaglen datblygu thermol yn y dyfodol.

I ddilysu digonedd, cywirdeb, prydlondeb a hygyrchedd y Gofrestr Asedau a Rhwymedigaeth, mae'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Sicrwydd yn flynyddol. Roedd ein hymagwedd at reoli asedau yn destun asesiad archwilio mewnol ym mis Ebrill 2024 a darparwyd barn sicrwydd digonol. Mae gennym gronfa ddata asedau sy'n cynnwys gwybodaeth lawn am ein holl eiddo a chydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai yng Nghymru a'r buddsoddiad angenrheidiol dros gyfnod oes ein cynllun busnes y byddwn yn ei ddefnyddio i ddatblygu ein rhaglen gynlluniedig ac at ddibenion cynllunio busnes.

Mae gennym raglen o arolygon cyflwr stoc i ychwanegu at a dilysu ein data'n barhaus. Yn unol â gofynion Safon Ansawdd Tai yng Nghymru 2023, mae gennym raglen o waith i sicrhau bod ein holl gartrefi'n cyd-fynd ag EPC C erbyn 2030 ac rydym wrthi'n datblygu llwybrau ynni a fydd yn ein galluogi ni i nodi'r mesurau a'r costau o sicrhau bod yr holl gartrefi'n cyd-fynd ag EPC A cyn gynted ag y bydd yn ariannol bosib a lle bo'n ddichonadwy. At hynny, rydym yn cynnal rhestr lawn a chyfoes o'r holl offer, cerbydau a dodrefn a'n heiddo masnachol amhreswyl, gan gynnwys ein swyddfeydd a hybiau ein staff.

Ynghyd â pherfformiad ariannol, rydym wedi defnyddio asedau sy'n tanberfforio i gefnogi gweithgaredd cymunedol. Er enghraifft, yng Nghae Fadre, mae un o'n cartrefi sydd wedi bod yn anodd ei osod wedi cael ei addasu at ddiben newydd i fod yn Hyb Cymunedol fel rhan o'r strategaeth Clear Hold Build mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at leihad o 80% mewn troseddu ar draws yr ystâd.

Rydym wedi adolygu ein stoc tai ac wedi nodi 5 pot o eiddo (gwerth tua £20 miliwn yr un) sydd wedi'u clustnodi ar gyfer gwarantu (caiff y rhain eu defnyddio fel gwarant yn erbyn benthyciad yn y dyfodol). Y nod yw cael eiddo sy'n barod i ymateb i anghenion y busnes wrth chwilio am ofynion cyllido.

Sylwadau Tenantiaid:

"O'r hyn dw i wedi gweld, mae'r tai newydd sbon o safon uchel fel y rhai ym Meisgyn." "Rydym yn gweld y cynllun gwella cartrefi yn y gweithgor." "Mae Trivallis yn wneud llawer o waith da i sicrhau bod cartrefi'n ddiogel ac yn fforddiadwy ond nid yw bob amser yn dda yn gweiddi am hyn." "Mae'r hyb yng Nghae Fadre yn gwneud gwaith gwych ac yn dangos pa mor bwysig yw ymgysylltiad cymunedol."

SRh9 - MAE'R SEFYDLIAD YN CYNNIG LLETY O SAFON UCHEL.

SRh9: Sicrhau bod cartrefi a gyllidir yn gyhoeddus yn bodloni'r holl safonau, rheolau a chanllawiau statudol perthnasol a gyhoeddwyd mewn cysylltiad ag ansawdd llety, gan gynnwys Safon Ansawdd Tai yng Nghymru bresennol.

Mae ein holl gartrefi newydd yn bodloni'r Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru newydd, yn derbyn cymeradwyaeth drwy graffu technegol drwy swyddogion Llywodraeth Cymru ac yn bodloni gofynion rheoli adeiladu. Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddon ni ein cynllun datblygu sydd â'r nod o adeiladu 130 o gartrefi newydd sbon o safon neu fwy yn flynyddol, gan ymgorffori modelau tai amrywiol (rhent cymdeithasol, rhent marchnad a pherchnogaeth), gan flaenoriaethu unedau llai i gyd-fynd â newidiadau demograffig a chanolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni a hygyrchedd. Rydym yn cynllunio i ehangu ein cyrhaeddiad daearyddol o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a defnyddio adnoddau a safonau dylunio Llywodraeth Cymru yn strategol. Caiff strategaethau lliniaru risg, gan gynnwys rheolau ariannol a mesurau sicrhau ansawdd, eu hintegreiddio i sicrhau llwyddiant y cynllun. Y nod cyffredinol yw gwella lles cymunedol drwy gynyddu tai fforddiadwy a'u hansawdd.

Rydym wedi gallu sicrhau 15 o gartrefu ar ystâd newydd sbon yn Aberdâr lle aeth y datblygwr gwreiddiol i law'r derbynnydd yng nghanol y prosiect. Gwnaethom gaffael â'r cartrefi hyn gan Fanc Datblygu Cymru, drwy'r Grant Tai Cymdeithasol, a byddant yn cael eu hysbysebu a'u dyrannu yn y ffordd draddodiadol drwy'r gofrestr tai lleol.

Caiff cartrefi gwag safonol eu haddasu yn unol â'r Safonau Ansawdd Tai yng Nghymru blaenorol a byddant yn cydymffurfio â'r Deddf Ffit i Fod yn Gartref. Drwy gydol 2024-25, rydym wedi cwblhau 99% o'n rhaglen fuddsoddi asedau a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn, gan wneud gwelliannau mawr eu hangen i gartrefi ein tenantiaid. At hynny, sicrhawyd cyllid grant gwerth £5 miliwn i gefnogi ein Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a manteisiodd 257 o gartrefi o grant gweithredu Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) sy'n cyd-fynd â'n huchelgeisiau sero net a SATC ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar foddhad tenantiaid.

Yn 2024/25, rydym wedi gallu sicrhau bod 31 o gartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith yn rhagor drwy Grant y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP). Mae'r holl gartrefi a brynwyd dan gyllid TACP yn bodloni'r gofynion a amlinellwyd yn amodau'r grant ac mae hyn yn golygu y gallwn ni greu cartrefi ansawdd uchel, hirdymor yn gyflym. Mae cynlluniau hirdymor ar gyfer Penrhys yn cael eu datblygu mewn cydweithrediad â phreswylwyr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Sylwadau Tenantiaid:

"Nid yw tenantiaid am weld safonau'n cael eu gorfodi os nad yw'r safon yn addas i'w cartref. Byddai'n well gen i gael fy mheiriant golchi a sychu yn y gegin na mwy o le storio."
"Pan fydd tir wedi'i brynu, mae'r cynlluniau datblygu bob amser yn cael eu rhannu gyda ni." "Mae'n dda gweld hen adeiladau mawr yn cael eu hailddefnyddio."

CYNLLUN GWELLA				
SRh	**Cam**	**Canlyniad**	**Pwy**	**Pryd**
SRh1	Byddwn yn cymryd rhan yn y cynllun Llwybr i Fwrdd.	Cefnogi pobl du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol i fod yn barod i fod ar y Bwrdd.	Cadeirydd y Bwrdd	Tachwedd 2025
SRh1	Byddwn yn comisiynu archwiliad mewnol o brosesau recriwtio a Gwasanaethau Pobl.	Profi bod ein proses newydd yn gweithredu'n effeithiol a nodi bylchau posib ar gyfer gwelliant pellach.	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl	Medi 2025
SRh1	Terfynu a chyhoeddi'r Strategaeth TG a Data.	Sicrhau bod ein hymagwedd at gasglu a rheoli data yn ddibynadwy ac yn cefnogi ein penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar ddata o safon.	Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau	Awst 2025
SRh1	Datblygu hierarchaeth adrodd am berfformiad newydd ar draws y Bwrdd a Phwyllgorau.	Adlewyrchu'r strategaethau a lansiwyd ac adrodd am broses a risgiau'n glir wrth y Bwrdd yn erbyn yr amcanion strategol.	Bwrdd Tîm Arweinyddiaeth Weithredol	Tachwedd 2025
SRh1	Cyflwyno rhaglen gynhyrchiol o bynciau trafod i'r Bwrdd a Phwyllgorau	Cefnogi arloesedd a llywio datblygiad strategol.	Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau	Medi 2025.
SRh2	Bydd archwiliad mewnol o drefniadau Llywodraethu yn cael ei gynnwys yn y cynllun mewnol 3 blynedd o hyd.	Bydd hyn yn profi'r sicrwydd ar weithredu trefniadau llywodraethu i nodi meysydd o arfer gorau a meysydd i'w gwella.	Pennaeth Sicrwydd	Ebrill 2025

SRh2	Sefydlu gweithgor Parhad Busnes chwarterol.	Bydd y grŵp yn cyflawni'r broses o roi trefniadau parhad busnes ar waith, a phrofi a goruchwylio cynnydd dadansoddi a chynllunio effaith adrannol.	Pennaeth Sicrwydd	Mehefin 2025
SRh2	Rhoi ymagwedd ffurfiol ar waith i gofnodi'r gwersi a ddysgwyd.	Sicrhau bod y sefydliad yn nodi'n effeithiol gwraidd y broblem pan fydd digwyddiadau.	Cadeirydd y Pwyllgor Sicrwydd Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau	Medi 2025.
SRh3	Cyflwyno hyfforddiant rheoli contractwyr i gydweithwyr.	Sicrhau y caiff perfformiad contractwyr ei fonitro'n agos a'i fod yn cydymffurfio â'n gwerthoedd ac yn cefnogi cyflawniad ein hamcanion strategol.	Cyfarwyddwr Gweithredol Cymunedau	Medi 2025
SRh4	Sioe deithiol i denantiaid i'w threfnu.	Fel y gall tenantiaid sy'n cymryd rhan rannu'r hyn maent wedi'i wneud gyda thenantiaid eraill i helpu i annog mwy o bobl i gymryd rhan.	Prif Weithredwr	Drwy gydol 2025-26
SRh4	Nodi cysylltwyr cymunedol a chydweithio â nhw.	Pobl allweddol yn y gymuned y gall tenantiaid siarad â nhw fel bod clinigau cymunedol yn cynnwys staff, tenantiaid ac aelodau o'r gymuned.	Prif Weithredwr	Drwy gydol 2025-26
SRh4	Cyflwyno cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan gyda'r hwyr ac ar-lein.	Ehangu cyfranogiad tenantiaid drwy fod yn fwy hygyrch i bobl sy'n gweithio ac i bobl iau.	Prif Weithredwr	Drwy gydol 2025-26
SRh5	Ystyried rhoi ymagwedd arolygwyr tenantiaid ar waith.	Asesu ansawdd gwaith a wnaed gan gontractwyr a gwirio bod pobl sy'n talu taliadau gwasanaethau wedi derbyn y gwasanaeth a ddisgwyliwyd.	Cyfarwyddwr Gweithredol Cymunedau	Hydref 2025
SRh6	Taith dywys i denantiaid o stoc i'w threfnu ym Mherthcelyn a Phorth	Cael deall gan denantiaid os yw'r arbedion effeithlonrwydd ynni a ddisgwyliwyd yn cael eu gwireddu.	Cyfarwyddwr Gweithredol Cymunedau	Hydref 2025